# Cynigion am fframwaith tâl a dilyniant i’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

## Fframwaith tâl a dilyniant

Dyma ddrafft cychwynnol o fframwaith tâl a dilyniant i'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cyflwyno cyfres o fandiau ar gyfer pob rôl wahanol ac mae'n cynnwys y sgiliau, y gwerthoedd, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r tasgau nodweddiadol ar gyfer pob un ohonynt. Yn y dyfodol, bydd hefyd yn cynnwys map gyrfaol o gyfleoedd am ddilyniant yn y sector. Nid yw'r drafft hwn yn cynnwys graddfeydd cyflog a ragwelir eto; bydd y rheiny'n dilyn mewn fersiwn ddiweddarach.

Bydd y fframwaith yn wirfoddol ac wedi'i gyfyngu, i ddechrau, i weithwyr sy'n darparu gofal uniongyrchol. Ni fydd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd.

## Cefndir

Datblygwyd y fframwaith tâl a dilyniant drafft hwn gan Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020 yn sgil argymhelliad gan Gomisiwn Gwaith Teg Cymru.

Rydym yn grŵp partneriaeth gymdeithasol o gyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill. Ein nod yw gwella'r trefniadau gweithio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg, eu bod yn cael eu clywed a'u cynrychioli, a'u bod yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd cynhwysol, iach, lle y caiff hawliau eu parchu.

## Nodau'r fframwaith

Bwriad y fframwaith hwn i fodloni uchelgeisiau ymrwymiad Cymru i waith teg a strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Ein nod hefyd yw:

- gwella recriwtio a chadw mewn gofal cymdeithasol
- cefnogi datblygiad y gweithlu trwy wella sgiliau a gwybodaeth yn barhaus
- darparu llwybr dilyniant clir i'r rhai sy'n ystyried ymuno â'r sector, neu sydd eisoes yn y sector
- darparu fframwaith wedi'i symleiddio i gyflogwyr a gweithwyr
- disgrifio a safoni ymddygiadau cadarnhaol gweithwyr gofal cymdeithasol
- darparu proses deg a thryloyw ar gyfer penderfyniadau cyfunol ac unigol ar gyflogau (mewn sefydliadau unigol, ar hyn o bryd).

# Beth fydd y fframwaith yn ei olygu i unigolion a grwpiau

**Bydd cyflogwyr gofal cymdeithasol yn gallu:**

- deall y gwerthoedd, y priodweddau, y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y cymwysterau a'r dysgu allweddol y mae eu hangen o fewn pob band gwaith gofal cymdeithasol
- ei ddefnyddio i ddatblygu dulliau ar gyfer recriwtio
- rheoli perfformiad a doniau, cynllunio ar gyfer olyniaeth, tâl a chyllidebu.

**Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol, naill ai ar ddechrau eu gyrfa neu trwy gydol eu gyrfa, yn:**

- ymwybodol o'r sgiliau craidd y mae eu hangen i gyflawni eu rôl yn dda
- cael manylion am gymwysterau a dysgu gofynnol
- cael opsiynau gyrfaol ar gyfer eu dilyniant naill ai'n uniongyrchol drwy'r system gofal cymdeithasol neu trwy lwybrau eraill (fel gwaith cymdeithasol neu ofal iechyd).

**Bydd rheolwyr gofal cymdeithasol yn gallu ei ddefnyddio at ddiben:**

- sgyrsiau gydag aelodau tîm am eu sgiliau a'u gwerthoedd craidd
- cefnogi a datblygu sgiliau eu timau
- cefnogi aelodau tîm i symud ymlaen yn eu gyrfa
- nodi'r sgiliau craidd y bydd eu hangen arnynt yn eu rôl eu hunain i arwain a rheoli pobl
- gwybodaeth am gymwysterau a dysgu a'r gofynion am gofrestru proffesiynol trwy Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Bydd unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth a'u teuluoedd yn gallu:**

- deall rôl y rhai sy'n darparu eu gofal
- adnabod a deall y sgiliau mae eu hangen
- cael dweud eu dweud am rôl gweithwyr gofal cymdeithasol yn awr ac yn y dyfodol.

**Bydd comisiynwyr gwasanaethau yn gallu:**

- cymharu gofynion y gweithlu a goblygiadau cyllidebol (bydd hyn yn destun proses ymgysylltu ar wahân yn y dyfodol) ar gyfer darpar ddarparwyr
- rhoi arweiniad ar gofrestru a gofynion cymwysterau i weithwyr a sefydliadau
- ei ddefnyddio'n fodd ar gyfer deialog ac asesu trwy gydol y broses gaffael.

## Sut bydd y fframwaith yn cael ei ddatblygu

Mae’r siart llif yn dangos amrywiol gamau datblygu’r fframwaith. Ar hyn o bryd, rydym am gael adborth ar y ddau gam cyntaf.

1. Cytuno ar ac amlinellu egwyddorion y fframwaith, ei elfennau allweddol, ei nodau a’i ddiben
2. Llunio’r fframwaith i gynnwys: sgiliau allweddol a gwerthoedd, cofrestru, cymwysterau, rolau enghreifftiol a thasgau nodweddiadol
3. Cysonio’r rolau presennol â’r fframwaith a llunio swydd-ddisgrifiadau wedi’u safoni
4. Dadansoddi’r systemau tâl a gwobrwyo a ddefnyddir ar hyn o bryd gan ddarparwyr a nodi clystyrau ac anghysondebau
5. Datblygu strwythur tâl i fodloni’r lefelau yn y fframwaith
6. Datblygu prosesau, polisiau ac adnoddau ategol i gefnogi’r fframwaith
7. Cynorthwyo darparwyr gwasanaethau i gysoni eu gwasanaeth â’r fframwaith

## Yr egwyddorion sylfaenol y mae'r fframwaith wedi'i seilio arnynt

- Mae'r fframwaith yn cwmpasu gwaith gofal cymdeithasol sy'n cefnogi oedolion neu blant a phobl ifanc
- Bydd pob band swyddi yn cynrychioli ystod eithaf eang o rolau ym maes gofal cymdeithasol. Bydd bandiau swyddi'n cymryd i ystyriaeth gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol presennol yng Nghymru.
- Bydd yn amlinellu'r gwerthoedd, y priodweddau, y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth graidd sy'n ofynnol. Mae tasgau nodweddiadol a rolau ar gyfer pob band swyddi yn cael eu darparu hefyd. Dyma beth yw ystyr yr holl dermau hyn:

- **gwerthoedd a phriodweddau** – y gwerthoedd a'r priodweddau y mae'n rhaid i unigolion feddu arnynt, neu eu cael, i berfformio'n effeithiol yn y gwaith
- **sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth** – y sgiliau y mae eu hangen i wneud y rôl yn dda. Gellir ennill y sgiliau hyn wrth weithio neu o ganlyniad i ennill cymwysterau neu ddysgu ffurfiol
    - **tasgau nodweddiadol** – amlinelliad o rai o'r gweithgareddau a ddisgwylir ar bob lefel. Nid disgrifio pob rôl yn fanwl yw'r nod, ond dangos lefel y cyfrifoldeb ac atebolrwydd ym mhob band swyddi
    - **rolau** – mae'r rhain yn enghreifftiau o deitlau swydd ym mhob band swyddi, gan nad yw'n bosibl cynnwys pob opsiwn posibl yn llawn.
- **bydd ystodau cyflog a disgwyliadau'n** cael eu cynnwys mewn fersiwn o'r fframwaith yn y dyfodol. Bydd disgwyliadau o ran telerau ac amodau cyflogaeth yn cael eu cynnwys hefyd i roi arweiniad i gyflogwyr.

## Ystyriaethau pellach ar ôl gweithredu'r fframwaith

Ar ôl datblygu'r fframwaith, bydd yn galluogi adnoddau a phecynnau cymorth i gael eu datblygu er mwyn cynorthwyo cyflogwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol ymhellach. Gallai'r rhain gynnwys:

- pecynnau cymorth ar recriwtio a dewis i sicrhau bod y rhai sy'n ymuno â'r gweithlu ac yn symud ymlaen yn y gweithlu yn meddu ar y sgiliau a'r priodweddau angenrheidiol ar gyfer eu rôl
- rhaglen ddysgu a datblygu gynhwysfawr yn gysylltiedig â phob lefel
- pecyn cymorth rheoli perfformiad i gefnogi sgyrsiau a thrafodaethau datblygu un i un
- pecynnau cynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli'r gweithlu i helpu rheoli a chynllunio adnoddau ac annog dilyniant
- pecyn cymorth gwobrwyon a chydnabyddiaeth sy'n anelu at symbylu unigolion a dal gafael ar ddoniau.

## Nodweddion y fframwaith

Ar hyn o bryd mae cymwysterau trwy brentisiaethau ffurfiol yn cael eu hariannu ym mhob band swydd, er nad oes cyfeiriad penodol atyn nhw yn y fframwaith.

Nid yw'r cymwysterau a nodir yn rhestr gynhwysfawr ac mae cymwysterau amgen ac etifeddol yn dderbyniol. Mae manylion llawn yr holl gymwysterau ar gyfer rolau swyddi wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Cymwysterau ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Cynlluniwyd y fframwaith i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rolau cofrestredig ac anghofrestredig. Ar gyfer rolau cofrestredig, gall y cymwysterau fod yn ofyniad ar gyfer y rôl ac ar gyfer rolau anghofrestredig, mae cymwysterau yn argymhelliad.

# Bandiau swydd arfaethedig a disgrifwyr

## Cynorthwyydd gofal cymdeithasol (ymunwyr newydd)

BAND SWYDDI A

**Gweithiwr newydd a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth, gan ennill y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol ar yr un pryd.**

**Cymwysterau gofynnol neu a argymhellir**

- Gweithio tuag at gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ac yna tuag at Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedyn tuag at
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

**Rolau nodweddiadol**

- Cynorthwyydd gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)
- Cynorthwyydd gofal (oedolion)
- Prentis weithiwr gofal

## Gweithiwr gofal cymdeithasol

BAND SWYDDI B

**Gweithiwr a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i unigolyn.**

**Cymwysterau gofynnol neu a argymhellir**

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Rolau nodweddiadol**

- Gwasanaethau dydd / cymunedol i oedolion – cynorthwyydd gwasanaethau dydd
- Gwasanaethau cymorth cartref (oedolion)
- Gweithiwr cymorth gofal cartref
- Gweithiwr gofal preswyl i blant

## Uwch weithiwr gofal cymdeithasol

BAND SWYDDI C

**Gweithiwr a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth, weithiau ar lefel arbenigedd uwch, yn uniongyrchol i unigolyn ac sydd efallai â chyfrifoldeb hefyd am oruchwylio gweithwyr a goruchwylio a monitro'r gwaith o weithredu cynlluniau gofal.**

**Cymwysterau gofynnol neu a argymhellir**

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3: Ymarfer (Oedolion)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

### Rolau nodweddiadol

- Uwch weithiwr gofal cymdeithasol
- Arweinydd tîm

## Ymarferydd proffesiynol gofal cymdeithasol

BAND SWYDDI D

**Gweithiwr sy'n ymarferydd arweiniol mewn tîm gofal, sy'n goruchwylio meysydd fel asesu anghenion gofal, adsefydlu a galluogi. Bydd rôl ganddo mewn asesu perfformiad ac ansawdd darparu gofal. Gall ymarferydd weithredu fel rhan o dîm gwaith cymdeithasol hefyd.**

**Cymwysterau gofynnol neu a argymhellir**

- 3 chymhwyster penodol i rôl mewn Ymarfer Proffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 1) Eiriolaeth Annibynnol 2) Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau 3) Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymarfer Proffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Tystysgrif AU mewn Ymarfer Gwaith Cymdeithasol (Cymru)

### Rolau nodweddiadol

- Cynorthwyydd arweiniol ar gyfer lleihau arferion cyfyngol trwy ymagweddau cadarnhaol ar gyfer ymddygiad
- Ymarferydd arweiniol:
  - gydag unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl
  - gydag unigolion sy'n byw gyda dementia
  - gydag unigolion sy'n byw gydag anabledd dysgu/awtistiaeth
  - ar gyfer plant a phobl ifanc anabl
  - ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
- Cynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol
- Arweinwyr Tîm a Dirprwy Reolwyr Cartrefi Gofal

## Rheolwr gofal cymdeithasol

BAND SWYDDI E

**Gweithiwr sy'n rheoli gwasanaeth ac sy'n gyfrifol am reolaeth broffesiynol gyffredinol darparu, goruchwylio a sicrhau ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn uniongyrchol.**


**Cymwysterau gofynnol neu a argymhellir**

- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a
- Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

**Rolau nodweddiadol**

- Rheolwr gofal cartref
- Rheolwr gofal ychwanegol
- Rheolwr gofal preswyl i blant
- Rheolwr canolfan gymorth breswyl i deuluoedd
- Rheolwr cartref gofal

# Amlinelliad o opsiynau camu ymlaen mewn gyrfa a bandiau eang



## Amlinelliad manwl yn ôl band swyddi

### Band swyddi A – Cynorthwyydd gofal cymdeithasol (ymunwyr newydd) (oedolion a phlant a phobl ifanc)

Gweithiwr newydd a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth, gan ennill y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol ar yr un pryd.

| Gwerthoedd a phriodweddau | Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth | Tasgau nodweddiadol |
|---|---|---|
| • Empathi a thosturi<br>• Yn angerddol am ddarparu gofal<br>• Cyfathrebu – gallu ysgrifennu, darllen, siarad a gwrando<br>• Yn rheoli amser ac yn gwneud cynlluniau – yn brydlon ac yn hyblyg<br>• Yn ymateb i broblemau ac yn codi pryderon i gefnogi unigolion<br>• Yn gweithio mewn tîm – gweithio'n dda gydag eraill, gallu meithrin perthnasoedd adeiladol, cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a gweithio gydag eraill i lunio cynlluniau gofal<br>• Yn rheoli ei iechyd a'i les ei hun a gwybod pryd i ofyn am gymorth<br>• Yn gynhwysol a ddim yn barnu – yn parchu a chydnabod hawliau, dymuniadau ac anghenion unigolion o ran sut maen nhw'n cael gofal a chymorth. | • Deall a chymhwyso'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol<br>• Deall ac ymgysylltu ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg.<br>• Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sylfaen i iechyd a gofal cymdeithasol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014), a'u cymhwyso mewn ymarfer<br>• Gallu dysgu ymagweddau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n seiliedig ar hawliau, a'u cymhwyso mewn ymarfer<br>• Deall ac yn gallu dilyn gweithdrefnau i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a'r unigolion sy'n cael eu cefnogi<br>• Deall sut i hyrwyddo a chynorthwyo â diogelu unigolion<br>• Deall y term diogelu a'ch dyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu<br>• Sgiliau rhif – yn deall cyfrifiadau, mesuriadau, cofnodi rhifau a defnyddio amserlenni a chynlluniau<br>• Sgiliau digidol – defnyddio technoleg ar lefle sylfaenol a bod yn barod i ddysgu systemau newydd i gefnogi pobl eraill. | • Darparu gofal sylfaenol i oedolion neu blant a phobl ifanc<br>• Darparu gofal personol a chymorth i oedolion neu blant a phobl ifanc<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a'u hannog<br>• Darparu gofal yng nghartref unigolion ar sail eu hanghenion a'u gofynion<br>• Cefnogi ac annog unigolion i ymgymryd â thasgau personol a chymdeithasol<br>• Cynorthwyo â datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gofal. |

| Band Swyddi B – Gweithiwr gofal cymdeithasol (oedolion a phlant a phobl ifanc)<br><br>Gweithiwr a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i unigolyn. | | |
|---|---|---|
| **Gwerthoedd a phriodweddau** | **Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth** | **Tasgau nodweddiadol** |
| • Empathi a thosturi<br>• Yn angerddol am ddarparu gofal<br>• Cyfathrebu – gallu ysgrifennu, darllen, siarad a gwrando<br>• Yn rheoli amser ac yn gwneud cynlluniau – i sicrhau ei fod yn rheoli amser, delio â sefyllfaoedd annisgwyl a chefnogi ei gydbwysedd ei hun o ran bywyd a gwaith<br>• Datrys problemau – yn adnabod problemau a gall ystyried opsiynau i gefnogi unigolion<br>• Cynllunio dysgu a datblygiad – i gwblhau cymwysterau gofynnol, cadw i fyny â deddfwriaeth a pholisïau, adnabod a gweithredu gwelliannau i wasanaethau<br>• Yn gweithio mewn tîm – gweithio'n dda gydag eraill, gallu meithrin perthnasoedd adeiladol, cefnogi defnyddwyr gwasanaethau a gweithio gydag eraill i lunio cynlluniau gofal<br>• Yn rheoli ei iechyd a'i les ei hun a gwybod pryd i ofyn am gymorth<br>• Yn gynhwysol a ddim yn barnu – yn parchu a chydnabod hawliau, dymuniadau ac anghenion unigolion o ran sut maen nhw'n cael gofal a chymorth. | • Deall a chymhwyso'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol<br>• Deall ac ymgysylltu ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg.<br>• Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sylfaen i iechyd a gofal cymdeithasol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014), a'u cymhwyso mewn ymarfer<br>• Deall ymagweddau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n seiliedig ar hawliau, a'u cymhwyso mewn ymarfer<br>• Myfyrio ar ymarfer i wella'n barhaus<br>• Deall ac yn gallu dilyn gweithdrefnau i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a'r unigolion sy'n cael eu cefnogi<br>• Deall sut i hyrwyddo a chynorthwyo â diogelu unigolion<br>• Sgiliau rhif – yn deall cyfrifiadau, mesuriadau, cofnodi rhifau a defnyddio amserlenni a chynlluniau<br>• Sgiliau digidol – yn gallu defnyddio technoleg i gofnodi gwybodaeth, cynnal e-ddysgu, defnyddio technoleg i gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. | • Darparu gofal sylfaenol i oedolion neu blant a phobl ifanc<br>• Darparu gofal personol a chymorth i oedolion neu blant a phobl ifanc<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a'u hannog<br>• Darparu gofal yng nghartref unigolion ar sail eu hanghenion a'u gofynion<br>• Cefnogi ac annog unigolion i ymgymryd â thasgau personol a chymdeithasol<br>• Cynorthwyo â datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau gofal. |

## Band Swyddi C – Uwch weithiwr gofal cymdeithasol (oedolion a phlant a phobl ifanc)

Darparu gofal a chymorth ar lefel uwch neu arbenigedd, yn uniongyrchol i unigolyn ac a allai hefyd fod yn gyfrifol am oruchwylio gweithwyr a goruchwylio a monitro'r broses o weithredu cynlluniau gofal.

| Gwerthoedd a phriodweddau | Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth | Tasgau nodweddiadol |
|---|---|---|
| • Empathi a thosturi<br>• Cyfathrebu – gallu ysgrifennu, darllen, siarad a gwrando<br>• Yn rheoli amser ac yn gwneud cynlluniau – i sicrhau ei fod yn rheoli amser, delio â sefyllfaoedd annisgwyl a chefnogi ei gydbwysedd ei hun o ran bywyd a gwaith<br>• Datrys problemau – yn gallu defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gefnogi anghenion amrywiol unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau<br>• Llunio cynlluniau gofal i unigolion, gan gyfrif am anghenion yr unigolyn ac adnoddau<br>• Ymrywiad i gynllunio dysgu a datblygiad iddo'i hun ac i eraill<br>• Rheoli, arwain a chynorthwyo cydweithwyr i oruchwylio gwaith, sicrhau arfer da a datblygu sgiliau'r tîm ac unigolion<br>• Gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys teuluoedd, timau gofal a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig<br>• Adolygu ymagweddau at waith gofal cymdeithasol yn rhagweithiol a gweithredu newidiadau ac addasiadau er mwyn ceisio gwelliannau parhaus<br>• Yn rheoli ei iechyd a'i les ei hun – yn ymateb yn dda i straen a sefyllfaoedd heriol<br>• Yn gynhwysol a ddim yn barnu – yn parchu a chydnabod hawliau, dymuniadau ac anghenion unigolion o ran sut maen nhw'n cael gofal a chymorth. | • Deall ac ymgysylltu ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg<br>• Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sylfaen i iechyd a gofal cymdeithasol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014), a'u cymhwyso mewn ymarfer<br>• Deall ymagweddau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n seiliedig ar hawliau, a'u cymhwyso mewn ymarfer<br>• Deall deddfwriaeth a phrosesau diogelu a meddu ar y sgiliau i wneud penderfyniadau a chyfrannu at ddiogelu unigolion<br>• Deall a chymhwyso'r egwyddorion a'r sgiliau a ddefnyddir mewn cyd-gynhyrchu<br>• Deall polisïau allweddol o fewn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau<br>• Sgiliau rhif – yn deall cyfrifiadau, mesuriadau, cofnodi rhifau a defnyddio amserlenni a chynlluniau<br>• Sgiliau digidol – yn gallu defnyddio technoleg i gofnodi gwybodaeth, cynnal e-ddysgu, defnyddio technoleg i gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. | • Datblygu a gweithredu cynlluniau gofal unigol<br>• Goruchwylio aelodau'r tîm, cynnal sesiynau un i un yn rheolaidd, cefnogi lles, rheoli perfformiad, salwch a phresenoldeb, rhoi cymorth, arweiniad a gofal i aelodau'r tîm<br>• Cysylltu rhwng unigolion, eu teuluoedd, timau gofal a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod gofal di-dor yn cael ei ddarparu<br>• Rheoli rotâu ac amserlenni o ddydd i ddydd i sicrhau bod gwasanaethau'n rhedeg yn hwylus<br>• Darparu gofal o ddydd i ddydd i unigolion, gan gynnwys gofal sylfaenol a phersonol, cymorth domestig. |

## Band Swyddi D – Ymarferydd proffesiynol gofal cymdeithasol (oedolion a phlant a phobl ifanc)

Ymarferydd arweiniol mewn tîm gofal. Yn arbenigo mewn llwybr o ddewis. Bydd rôl ganddo mewn asesu perfformiad ac ansawdd darparu gofal. Gall ymarferydd weithredu fel rhan bwysig o dîm gwaith cymdeithasol hefyd.

| Gwerthoedd a phriodweddau | Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth | Tasgau nodweddiadol |
|---|---|---|
| • Cyfathrebu – sgiliau cyfathrebu i raddau uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Yn rheoli amser ac yn gwneud cynlluniau – i sicrhau ei fod yn rheoli amser, delio â sefyllfaoedd annisgwyl a chefnogi ei gydbwysedd ei hun o ran bywyd a gwaith<br>• Meddwl yn feirniadol wrth ddatrys problemau cymhleth mewn maes arbenigol<br>• Llunio cynlluniau gofal a chymorth a datblygu pobl eraill i lunio cynlluniau gofal<br>• Gallu dadansoddi gwybodaeth gymhleth i wneud penderfyniadau clir a chyfeirio gweithredoedd pobl eraill<br>• Defnyddio crebwyll cadarn wrth gymhwyso gwybodaeth a phrofiad i sicrhau deilliannau gwell i unigolion<br>• Gallu defnyddio gwybodaeth, ffeithiau a safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dylanwadu<br>• Yn hunanymwybodol iawn er mwyn adnabod llwybrau twf personol, anghenion dysgu a phryd y bydd angen cymorth allanol<br>• Gallu arwain timau rhithwir o ofalwyr, heb reolaeth uniongyrchol<br>• Ymrywiad i rheoli, arwain a chynorthwyo cydweithwyr i oruchwylio gwaith, sicrhau arfer da a datblygu sgiliau'r tîm ac unigolion<br>• Ymrwymiad i gynllunio a chwblhau dysgu, datblygiad a chymwysterau parhaus<br>• Cynorthwyo gweithwyr gyda chyfnod sefydlu manwl<br>• Gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys teuluoedd, timau gofal a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig<br>• Adolygu ymagweddau at waith gofal cymdeithasol yn rhagweithiol a gweithredu newidiadau ac addasiadau er mwyn ceisio gwelliannau parhaus<br>• Yn rheoli ei iechyd a'i les ei hun – yn ymateb yn dda i straen a sefyllfaoedd heriol<br>• Yn gynhwysol a ddim yn barnu – yn parchu a chydnabod hawliau, dymuniadau ac anghenion unigolion o ran sut maen nhw'n cael gofal a chymorth. | • Deall a chymhwyso egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg<br>• Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch theorïau, modelau a dulliau sy'n berthnasol i'r llwybr o'i ddewis<br>• Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n berthnasol i'w rôl<br>• Deall y sgiliau a gallu gweithredu egwyddorion cyd-gynhyrchu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymhleth a heriol.<br>• Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch ymagweddau sy'n canolbwyntio ar y person/ plentyn ac sy'n seiliedig ar hawliau, ar draws amrywiaeth o leoliadau/ cyd-destunau<br>• Sgiliau rhif – yn deall cyfrifiadau, mesuriadau, cofnodi rhifau a defnyddio amserlenni a chynlluniau<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch deddfwriaeth diogelu a sut caiff ei chymhwyso mewn amgylcheddau cymhleth a gofal<br>• Sgiliau digidol – yn gallu defnyddio technoleg i gofnodi gwybodaeth, cynnal e-ddysgu, defnyddio technoleg i gefnogi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.<br>• Yn fedrus wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phryderon diogelu a sut i gynorthwyo tîm gofal pan fydd prosesau diogelu ac amddiffyn ar waith. | • Darparu goruchwyliaeth i aelodau unigol o'r tîm sydd angen cymorth arbenigol<br>• Gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol i drafod a chytuno ar gynlluniau gofal i unigolion penodol ag anghenion cymhleth<br>• Gweithio gyda chartrefi gofal a darparwyr gwasanaethau i asesu perfformiad a chynorthwyo â datblygu cynlluniau gwelliant parhaus<br>• Cynorthwyo'r rheolwr i ddefnyddio prosesau diogelu a chynorthwyo'r tîm gofal i ddeall diogelu a dilyn prosesau i fynegi pryderon. |

## Band Swyddi E – Rheolwr gofal cymdeithasol

Gweithiwr sy'n rheoli gwasanaeth ac sy'n gyfrifol am reolaeth broffesiynol gyffredinol darparu, goruchwylio a sicrhau ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn uniongyrchol.

| Gwerthoedd a phriodweddau | Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth | Tasgau nodweddiadol |
|---|---|---|
| • Cyfathrebu – sgiliau cyfathrebu i raddau uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Yn ysbrydoli ac yn arwain timau sydd efallai yn cynnwys amlddisgyblaethol ledled gofal cymdeithasol, rheoli adeiladau, arlwyo ac ati.<br>• Yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a darparwyr gwasanaethau eraill i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu i bawb<br>• Gallu sicrhau bod anghenion unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael eu bodloni, gan gydbwyso cyfyngiadau busnes a chyfyngiadau ariannol ar yr un pryd.<br>• Sgiliau cynllunio cadarn i lunio cynlluniau tymor byr, tymor canolig a thymor hir<br>• Ymrwymiad i gynllunio a chwblhau dysgu, datblygiad a chymwysterau parhaus<br>• Cynorthwyo gweithwyr gyda chyfnod sefydlu manwl<br>• Sgiliau arwain i arwain, rheoli a chefnogi perfformiad unigolion a'r tîm<br>• Gallu dadansoddi data a gwybodaeth gymhleth i wneud penderfyniadau clir a barnu'n wybodus, a chyfeirio gweithredoedd pobl eraill<br>• Defnyddio crebwyll cadarn wrth gymhwyso gwybodaeth a phrofiad i sicrhau deilliannau gwell i unigolion<br>• Gallu defnyddio gwybodaeth, ffeithiau a safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dylanwadu<br>• Yn hunanymwybodol iawn er mwyn adnabod llwybrau twf personol, anghenion dysgu a phryd y bydd angen cymorth allanol<br>• Gallu arwain timau rhithwir o ofalwyr, heb reolaeth uniongyrchol.<br>• Adolygu ymagweddau at waith gofal cymdeithasol yn rhagweithiol a gweithredu newidiadau ac addasiadau er mwyn ceisio gwelliannau parhaus<br>• Yn rheoli ei iechyd a'i les ei hun – yn ymateb yn dda i straen a sefyllfaoedd heriol<br>• Yn gynhwysol a ddim yn barnu – yn parchu a chydnabod hawliau, dymuniadau ac anghenion unigolion o ran sut maen nhw'n cael gofal a chymorth. | • Deall a chymhwyso egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg<br>• Deall a chymhwyso amrywiaeth o gysyniadau, theorïau a thechnegau arwain a rheoli mewn ymarfer<br>• Dealltwriaeth ddofn o ymagweddau sy'n canolbwyntio ar y person/plentyn mewn ymarfer<br>• Datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n berthnasol i'w rôl<br>• Deall y sgiliau a gallu gweithredu egwyddorion cyd-gynhyrchu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymhleth a heriol.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch deddfwriaeth diogelu a sut caiff ei chymhwyso mewn amgylcheddau cymhleth a gofal<br>• Gwybodaeth am systemau a phecynnau TG i gefnogi effeithlonrwydd y Tîm a darparu gofal<br>• Dealltwriaeth rifiadol a hyfedredd wrth ddefnyddio data. | • Cynnal sesiynau un i un gydag aelodau'r tîm, i reoli perfformiad, salwch a phresenoldeb<br>• Adolygu, llunio a rheoli cyllidebau a rotâu ar draws nifer o dimau<br>• Cysylltu â gweithwyr proffesiynol, timau cymorth arbenigol, ac asiantaethau lluosog i greu gwasanaeth cydgysylltiedig<br>• Defnyddio gwybodaeth a data i wneud y defnydd mwyaf o welyau eich cartref gofal<br>• Gweithio gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a theuluoedd i ddatblygu gofal sy'n canolbwyntio ar y person a sicrhau bod egwyddorion gofal cymdeithasol yn cael eu bodloni<br>• Goruchwylio gweithgareddau timau amrywiol ar draws sefydliad o ddydd i ddydd. Sicrhau urddas, cynhwysiant a phreifatrwydd bob amser.<br>• Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol ar gyfer diogelu unigolion |